# Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

**SOC(3)-02-10 : Papur 2**

## Argymhelliad 15 Adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol

### Mater

1. Yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr, bu Comisiwn y Cynulliad yn ystyried cynigion i fwrw ymlaen â'r argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol, 'Yn Gywir i Gymru'. Roedd hyn yn cynnwys ystyried Argymhelliad 15 yr adroddiad, sef:

"Yn ogystal â chofnodi gwybodaeth am gyflogaeth[1] arall ar y Gofrestr Buddiannau, dylai fod yn ofynnol i Aelodau'r Cynulliad nodi manylion yr amser y maent yn ei dreulio yn y gyflogaeth ychwanegol hon."""

2. Ar ôl ystyried y mater hwn, cytunodd y Comisiwn i gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad er mwyn ystyried yr opsiynau ar gyfer rhoi Argymhelliad 15 ar waith, ar sail ei gyfrifoldeb am ""arolygu'r trefniadau ar gyfer llunio, cynnal a sicrhau hygyrchedd i'r Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau ...a ffurf a chynnwys y Gofrestr[2]'.

3. Nod y papur hwn yw rhoi cychwyn i drafodaethau'r Pwyllgor ar y mater, ac mae'n nodi opsiynau i'r Pwyllgor eu hystyried – nid yw'r papur hwn yn rhoi unrhyw argymhelliad penodol. Rhoddir cynigion / argymhellion penodol ar ôl i'r Pwyllgor gytuno ar y ffordd orau ymlaen.

### Cefndir

4. Fel rhan o'i Adolygiad, bu'r Panel Annibynnol yn ystyried y sefyllfa pan fo gan yr Aelodau 'gyflogaeth arall', ac fe nododd ei bod eisoes yn ofynnol i Aelodau gofnodi'r wybodaeth hon yn y Gofrestr Buddiannau (o dan Reol Sefydlog 31). Er mwyn cael mwy o dryloywder a chynyddu ffydd y cyhoedd, teimla'r Panel y dylid darparu mwy o wybodaeth; yn arbennig yr amser a gaiff ei dreulio mewn perthynas â chyflogaeth arall.

5. Ar sail y cymhlethdod a'r sancsiynau troseddol posibl sydd ynghlwm â pheidio â chofrestru buddiannau (yn gywir) o dan Reol Sefydlog 31, mae angen ystyried yn ofalus sut y dylid rhoi'r gofynion ychwanegol ar waith.

### Darpariaethau presennol

6. Mae Adran 36 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (y Ddeddf) yn cynnwys gofyniad bod yn rhaid i'r Rheolau Sefydlog gynnwys darpariaeth ar gyfer Cofrestr o Fuddiannau Aelodau, a bod yn rhaid i'r Rheolau Sefydlog ddiffinio'r buddiannau hynny sydd i'w cofrestru. O dan Adran 36(7) o'r Ddeddf, mae Aelod nad yw'n cydymffurfio â'r darpariaethau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Rheol Sefydlog (neu sy'n mynd yn groes iddynt) yn cyflawni trosedd. Mae'r darpariaethau perthnasol wedi'u cynnwys yn Rheol Sefydlog 31(SO31).

7. Yn unol â Rheol Sefydlog 31, mae'n ofynnol i Aelodau gofnodi buddiannau ariannol penodol. Mae'r Atodiad i Reol Sefydlog 31 yn diffinio'r buddiannau hynny y dylid eu cofrestru. Dangosir Categori 2 o'r buddiannau y dylid eu cofrestru isod:

(ii) cyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth (heblaw aelodaeth o'r Cynulliad) y mae'r Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, y mae partner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod dros un ar bymtheg oed , yn cael tâl amdanynt, neu y mae gan yr Aelod neu, hyd y gwyr yr Aelod, y mae gan bartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod dros un ar bymtheg oed, unrhyw fuddiant ariannol ynddynt;

8. Felly o dan Gategori 2, mae'n ofynnol i Aelodau gofrestru manylion am **bob cyflogaeth** y tu allan i'r Cynulliad ac unrhyw ffynonellau tâl nad ydynt yn disgyn yn glir o fewn unrhyw Gategori arall. Bydd y Pwyllgor yn nodi bod y manylion hynny yn ymwneud hefyd â phartner yr Aelod neu unrhyw blentyn dibynnol i'r Aelod.

### Opsiynau / ystyriaethau penodol ar gyfer rhoi Argymhelliad 15 ar waith

9. Mae angen ystyried nifer o opsiynau er mwyn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith. Un o'r ystyriaethau allweddol y bydd y Pwyllgor yn dymuno ei ystyried yw'r sancsiynau troseddol posibl a allai godi o fethu â chofrestru gwybodaeth yn gywir (a'r effaith y gall hyn ei gael ar Aelodau'r Cynulliad). Ynghyd â hyn, bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno ystyried y dull gorau o gofnodi'r oriau a dreulir mewn cyflogaeth arall. Nodir yr opsiynau sy'n ymwneud â'r materion penodol hyn isod, i'r Pwyllgor gael eu hystyried:

### Darpariaethau yn y Rheolau Sefydlog

Opsiwn 1: Cynnwys y ddarpariaeth newydd o fewn Rheol Sefydlog 31

10. Yr esboniad mwyaf plaen o argymhelliad 15 yw mai estyniad o'r ddarpariaeth bresennol a nodir yn Rheol Sefydlog 31 yw'r gofyniad newydd i gofrestru'r oriau a dreulir mewn cyflogaeth arall. Os caiff Rheol Sefydlog 31 ei diwygio i gynnwys darpariaeth bod yn rhaid i Aelodau hefyd gofrestru'r oriau a dreulir mewn cyflogaeth arall, yna byddai methu â chofnodi'r oriau hynny'n gywir o dan y darpariaethau y cytunwyd arnynt, yn drosedd (o bosibl) o dan Adran 36 o'r Ddeddf.

11. Fodd bynnag, gallai cofrestru nifer yr oriau a weithiwyd fod yn eithaf cymhleth (gweler paragraffau 15 i 22 isod) ac, yn dibynnu ar y

dull y cytunwyd arno i gofnodi'r oriau, gallai gynyddu'r posibilrwydd o dorri darpariaethau perthnasol y Rheolau Sefydlog (byddai toriadau o'r fath, o bosibl, yn droseddau).

Opsiwn 2: Sefydlu Rheol Sefydlog newydd

12. Trefniant arall ar gyfer cofnodi'r oriau a dreulir mewn cyflogaeth arall fyddai sefydlu Rheol Sefydlog newydd l i'r diben hwnnw'n benodol. Byddai'r gyflogaeth ei hun yn parhau i gael ei chofrestru yn unol â Rheol Sefydlog 31, ond gallai'r Rheol Sefydlog newydd ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gofnodi'r oriau a dreuliwyd yn y gyflogaeth hon ar wahân.

13. Mantais y dull hwn yw na fyddai cofnodi'r wybodaeth hon o dan Reol Sefydlog newydd yn dod â hi o fewn darpariaethau Rheol Sefydlog 31 nac Adran 36 o'r Ddeddf (h.y. ni fyddai'n ffurfio rhan o'r Gofrestr ffurfiol o Fuddiannau'r Aelodau). Felly, er y byddai methu â chofnodi'r wybodaeth berthnasol yn gywir yn torri'r Rheol Sefydlog newydd (rhywbeth y gallai'r Comisiynydd Safonau a'r Pwyllgor Safonau ymchwilio iddo, yn amodol ar fân ddiwygiad i Reol Sefydlog 16.1 (i) er mwyn cyfeirio at y Rheol Sefydlog newydd) ni fyddai'r sancsiynau troseddol sy'n deillio o Adran 36 y Ddeddf yn berthnasol.

### Sut i gofnodi'r oriau a weithiwyd yn ymarferol

14. Waeth pa ddull Rheol Sefydlog a ddefnyddir ar gyfer cofnodi nifer yr oriau a weithir, mae angen i'r Pwyllgor hefyd ystyried yn ofalus **sut** y caiff nifer yr oriau a weithiwyd mewn cyflogaeth arall eu cofrestru / cofnodi yn ymarferol.

15. Mae dau opsiwn wedi eu canfod ar gyfer sut y gall hyn weithio:

Ar sail barhaus; neu

Ffurflen dros gyfnod penodedig.

Opsiwn 1: Cofrestru / cofnodi parhaus

16. Mewn perthynas â chategorïau eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Gofrestr, caiff buddiannau eu cofrestru ar ôl eu 'cael', ac yn gyffredinol nid yw Rheol Sefydlog 31.4 yn caniatáu mwy na phedair wythnos i Aelodau gofrestru unrhyw newid yn eu manylion. Mae gan Reolau Sefydlog eraill tebyg (Rheol Sefydlog 32 a Rheol Sefydlog 31A drafft) hefyd reol gyffredinol bod yn rhaid i Aelodau gofnodi'r wybodaeth berthnasol o fewn pedair wythnos.

17. Mewn perthynas â'r oriau a dreulir mewn cyflogaeth y tu allan, yn dibynnu ar y math o gyflogaeth, gall Aelodau dreulio amser yn gwneud y gwaith hwn yn ddyddiol (er y gallai'r amser a dreulir fod yn fyr iawn). Os yw'r oriau a dreulir mewn cyflogaeth arall i gael eu cofnodi'n barhaus, byddai'r rheol gyffredinol ar gyfer cofrestru'n golygu y byddai'n rhaid i'r Aelodau gofrestru'r oriau a weithiwyd ganddynt **bob tro** o fewn y cyfnod o bedair wythnos.

18. Gallai hyn fod yn drafferthus, ac ar sail yr amlder posibl, gallai arwain at adegau lle byddai Aelodau'n methu â chyflwyno'r manylion penodol yn gywir yn unol â'r Rheol Sefydlog berthnasol.

Opsiwn 2: Ffurflen dros gyfnod penodedig

19. Gellid cynnwys darpariaeth yn y Rheol Sefydlog berthnasol a fyddai'n caniatáu i Aelod ddarparu ffurflen yn rhoi manylion am nifer yr oriau y mae wedi eu gweithio mewn cyflogaeth arall o fewn cyfnod penodedig. Er enghraifft: o fewn pedair wythnos i ddiwedd pob mis calendr, bob chwe mis neu bob blwyddyn.

20. Byddai hyn yn golygu na fyddai'n rhaid i Aelodau gyflwyno cymaint o gofnodion. Fodd bynnag, byddai'n golygu y byddai angen i Aelodau gadw cofnod cywir o'r oriau y maent wedi eu gweithio er mwyn i'r ffurflen fod yn gywir. Yr hiraf y bo'r cyfnod penodedig, y mwyaf o gofnodion y bydd angen i'r Aelod eu cadw.

### Rhoi manylion am yr amser a dreulir mewn cyflogaeth arall

21. Nid oedd y Panel Adolygu Annibynnol yn nodi'r manylion a oedd angen eu cynnwys wrth gofnodi'r amser a dreulir mewn cyflogaeth ychwanegol. Mewn rhai achosion byddai'n ofynnol i Aelod gofnodi'r amser a dreulir mewn cyflogaeth ychwanegol i ddiben y gyflogaeth honno beth bynnag. Mewn achosion eraill (er enghraifft pe bai'r Aelod yn hunangyflogedig) ni fyddai angen gwneud hyn. Mewn achosion o'r fath, gallai ei gwneud yn ofynnol i Aelodau gadw cofnodion manwl gael ei ystyried yn drafferthus. Opsiwn arall fyddai ei gwneud yn ofynnol i Aelodau nodi a oedd yr amser a dreuliwyd o fewn un o nifer o gategorïau cymharol eang, er enghraifft, oriau'r wythnos neu ddyddiau'r mis.

### Casgliad

22. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr amrywiol opsiynau a nodir yn y papur ac i nodi ei hoff agwedd tuag at:

Gynnwys darpariaethau newydd yn y Rheol Sefydlog (paragraffau 10-13);

Yr agwedd gyffredinol tuag at gofnodi (paragraffau 14-20); a

Lefel y manylion sy'n ofynnol (para 21).

23. Yn amodol ar y penderfyniadau hyn, daw manylion penodol (gan gynnwys diwygiadau drafft i Reolau Sefydlog a / neu Ganllawiau) yn

ôl i'r Pwyllgor i'w hystyried ymhellach

**Gareth Rogers**

**Cofrestrydd Buddiannau Aelodau**

**Troednodion**

[1] Er bod yr argymhelliad yn cyfeirio at "gyflogaeth", mae gofyn i Aelodau gofrestru unrhyw "gyflogaeth, swydd, masnach, proffesiwn neu alwedigaeth" a fyddai'n cynnwys hunangyflogaeth. Defnyddir "cyflogaeth" yn gyffredinol drwy'r papur hwn, h.y. er mwyn cynnwys hunangyflogaeth.

[2] Rheol Sefydlog 16.1(iii)